**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 3225 (Cy.307)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Er mwyn sicrhau bod hereditamentau penodol i gyd yn cael eu hardrethu'n ganolog gyda'i gilydd, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan adran 53(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988. Yn y rheoliadau hynny, caiff ddynodi person a rhagnodi un neu ragor o ddisgrifiadau o hereditament annomestig mewn perthynas â'r person hwnnw. I'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru, mae'r pŵer hwn wedi cael ei drosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.

Y prif Reoliadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddibynnu ar y pŵer hwn yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999. Mae'r rhain yn effeithiol o ran unrhyw restr ardrethu canolog i Gymru a luniwyd ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau drwy roi Aquila Networks plc fel person dynodedig mewn perthynas â hereditamentau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at swyddogaethau darparwr trydan cyhoeddus, neu at ddibenion atodol, yn lle Midlands Electricity plc o 1 Tachwedd 2001.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 3225 (W.307)

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Central Rating List (Wales) (Amendment) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

With a view to securing *en bloc* the central rating of certain hereditaments, the Secretary of State may make regulations under section 53(1) of the Local Government Finance Act 1988 to designate a person and prescribe in relation to that person one or more descriptions of non-domestic hereditament. Insofar as it relates to Wales, this power has been transferred to the National Assembly for Wales by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999.

The principal Regulations made by the National Assembly for Wales in reliance on this power are the Central Rating List (Wales) Regulations 1999 which have effect with respect to any central rating list for Wales compiled on or after the 1st of April 2000.

These Regulations amend the principal Regulations by substituting, with effect from the 1st of November 2001, Aquila Networks plc for Midlands Electricity plc as a designated person in relation to hereditaments wholly or mainly used for the purposes of the functions of a public electricity supplier, or for ancillary purposes.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 3225 (Cy.307)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2003

*Wedi'u gwneud* *9 Rhagfyr 2003*

*Yn dod i rym* *11 Rhagfyr 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 53(1), (2), (4) a (4A), 140(4) a 143(1), (3) a (4A) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**a**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru(**b**).

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru'n unig, yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2003 a deuant i rym ar 11 Rhagfyr 2003.

**Diwygio Rheoliadau 1999**

**2**.-(1)Mae Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999(**c**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (4) o reoliad 1:

(a) Ar y dechrau, mewnosodwch y canlynol-

"(a) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (b)".

(b) Ar y diwedd, ychwanegwch y canlynol-

"(b) Yn Rhan 2 o'r Atodlen, mae'r cyfeiriad at Aquila Networks plc yn gyfeiriad at gwmni ac iddo'r enw hwnnw ar 10 Mai 2002.".

(a) 1988 p.41.

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 53(1), (2), (4) a (4A), 140(4) a 143(1), (3) a (4A) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag erthygl 2(2) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1999/3453.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 3225 (W.307)

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Central Rating List (Wales) (Amendment) Regulations 2003

*Made* *9th December 2003*

*Coming into force* *11th December 2003*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 53(1), (2), (4) and (4A), 140(4) and 143(1), (3) and (4A) of the Local Government Finance Act 1988(**a**) and now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in relation to Wales(**b**).

**Name, application and commencement**

**1.** These Regulations, which apply to Wales only, are called the Central Rating List (Wales) (Amendment) Regulations 2003 and shall come into force on the 11th December 2003.

**Amendment to the 1999 Regulations**

**2**.-(1) The Central Rating List (Wales) Regulations 1999(**c**) are amended as follows.

(2) In paragraph (4) of regulation 1:

(a) At the beginning, insert the following-

"(a) Subject to subparagraph (b)".

(b) At the end, add the following-

"(b) In Part 2 of the Schedule, the reference to Aquila Networks plc is a reference to the company bearing that name on the 10th of May 2002.".

(a) 1988 c.41.

(b) The powers of the Secretary of State under section 53(1), (2), (4) and (4A), 140(4) and 143(1), (3) and (4A) of the Local Government Finance Act 1988 were transferred to the National Assembly for Wales pursuant to article 2(2) of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1999/3453.

(3) Yn Rhan 2 o'r Atodlen, ac yn effeithiol o 1 Tachwedd 2001 ymlaen, rhowch "Aquila Networks plc" yn lle "Midlands Electricity plc"

(3) In Part 2 of the Schedule, and with effect from the 1st of November 2001, for "Midlands Electricity plc" substitute "Aquila Networks plc".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

9 Rhagfyr 2003

9th December 2003

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2003 Rhif 3225 (Cy.307)**

**2003 No. 3225 (W.307)**

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

# RATING AND VALUATION, WALES

Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2003

The Central Rating List (Wales) (Amendment) Regulations 2003

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

© Crown copyright 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090837-6

**£1.75**

W220/12/03 ON

9 780110 908373